



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk

# DADANSODDI RISG

Adroddiad y Prif  
Gynghorydd Gwyddonol

---



---

# Cynnwys

---

Rhagair	03
Cyflwyniad	05
Beth yw Dadansoddi Risg?	07
Cryfhau Proses Dadansoddi Risg yr ASB	08
Defnyddio Gwyddoniaeth a Thystiolaeth wrth Ddadansoddi Risg	09
Asesu risg	10
Tystiolaeth ‘arall’ sy’n cael ei hystyried	13
Ymdrin ag Ansicrwydd a Sicrwydd y Prif Gyngorydd Gwyddonol	14
Cyngor Rheoli Risg	16
Cyfathrebu Risg	17
Astudiaeth achos – Pecyn Tystiolaeth yr ASB ar gyfer Adolygiad o Fwyd Ysbyty’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)	18
Sylwadau’r Prif Gyngorydd Gwyddonol: Heriau a Chyfleoedd y Dyfodol	20
Cyfeiriadau a Chydnabyddiaeth	22





Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk

# Rhagair Y Prif Gyngorydd Gwyddonol

“Mae dull cryf, gwyddonol, sy’n seiliedig ar dystiolaeth wedi bod yn rhan annatod, ac mi fydd wastad yn rhan ganolog, o genhadaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label ac i rymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas â bwyd.

Mae dadansoddi risg yn ganolog i waith yr ASB a sut mae hi’n gweithio. Mae’r ASB wedi bod yn paratoi ar gyfer newidiadau ers refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mehefin 2016. Fodd bynnag, ers 2018, rydym ni wedi cynyddu ein paratodau, gan gynnal adolygiad manwl o’n proses dadansoddi risg gyfan: sut rydym ni’n cynnal asesiad risg iechyd pobl, adeiladu tystiolaeth o ffactorau dylanwadu ‘eraill’, sut rydym ni’n llunio safbwynt gwybodus a’n cyngor, a sut rydym ni’n cyfathrebu hyn ag eraill.

Dyma fy nawfed adroddiad gwyddoniaeth fel Prif Gyngorydd Gwyddonol, ac fy un olaf, ac mae’n rhoi crynodeb o broses dadansoddi risg wedi’i hatgyfnerthu yr ASB, ac yn esbonio sut mae gwyddoniaeth wrth ei gwraidd. Mae’n gwneud hynny ar adeg pan fyddwn yn rhoi mwy o bwyslais cenedlaethol ar asesu risg nag erioed o’r blaen. Credwn fod y broses hon yn arwain y byd o ran rheoleiddio diogelwch bwyd, yn arbennig o ran sicrhau tryloywder, dealltwriaeth y cyhoedd ac ymddiriedaeth yn y cyngor a ddarparwn.

---

Mae'r ASB wedi ymrwymo'n gadarn i egwyddorion cynhyrchu tystiolaeth, defnyddio tystiolaeth a chyfathrebu risg cynhwysol, trwyadl a hygyrch. Fel y Prif Gyngorydd Gwyddonol, fy swydd yw rhoi sicrwydd annibynnol o ba mor drylwyr yw gwyddoniaeth yr ASB a'r defnydd priodol o dystiolaeth wyddonol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod gwyddoniaeth a'r dystiolaeth y mae'n ei chynhyrchu yn datblygu'n barhaus, a bod gofyn i ni'n aml ffurfio safbwyntiau yn wyneb ansicrwydd, a hynny am nifer o resymau. Mae ein proses dadansoddi risg yn nodi'n glir fodolaeth ansicrwydd o'r fath a, bydd yn cael ei hadolygu wrth i dystiolaeth newydd wneud hynny'n bosibl.

Caiff buddion ein hegwyddorion, a thryloywder ein negeseuon iechyd y cyhoedd eu pwysleisio ymhellach yn erbyn cefndir presennol COVID-19 a diddordeb cynyddol y cyhoedd yn y defnydd o wyddoniaeth i lywio polisi'r llywodraeth.

O ystyried natur hollbwysig gwyddoniaeth a thystiolaeth wrth yrru'r broses o lunio polisiâu'r ASB, cynhaliwyd yr adolygiad o broses dadansoddi risg yr ASB ochr yn ochr ag ystod o ymdrechion cysylltiedig eraill, a ddyluniwyd i atgyfnerthu gallu a chapasiti gwyddonol a dadansoddi yr ASB. Roedd hyn yn cynnwys dyblu maint ei Huned Asesu Risg, ehangu'r Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol annibynnol a chreu Grwpiau Arbenigol ar y Cyd, a gynyddodd gapasiti cyfun ein Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol a'n Grwpiau Arbenigol ar y Cyd i fwy na 100 o arbenigwyr cynghori annibynnol. Trwy'r weithred hon ac mewn cydweithrediad â'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'r ASB mewn sefyllfa gref.

Mae ein proses dadansoddi risg yn ceisio cynnal hyder y cyhoedd mewn trefn reoleiddio gadarn sy'n cynnal safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel ledled y Deyrnas Unedig (DU), ac yn cefnogi ein henw da rhyngwladol fel rheoleiddiwr rhagorol ac atebol a gaiff ei arwain gan wyddoniaeth."



**Yr Athro Guy Poppy,**  
**Prif Gyngorydd Gwyddonol yr ASB**

# CYFLWYNIAD


Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r holl gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gartref ac a fewnforir i'w gwerthu yn y DU gydymffurfio â rheoliadau'r UE. Mae rheoliadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yn cael eu llywodraethu gan benderfyniadau rheoli risg y Comisiwn Ewropeaidd, gan ystyried asesiadau risg Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

O 1 Ionawr 2021, bydd deddfwriaeth Ewropeaidd ar ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn symud i gyfraith y DU<sup>1</sup>, gan sicrhau y bydd rheolau yn parhau. Fodd bynnag, mae gadael yr UE yn golygu bod yr ASB, ynghyd â chydweithwyr o Safonau Bwyd yr Alban yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau dadansoddi risg cyfun a gyflawnwyd yn flaenorol gan EFSA a'r Comisiwn Ewropeaidd.

## DIFFINIO RISG

**Perygl:** Rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed. Er enghraifft, mae *Campylobacter* (math o facteria sydd i'w gael ar gyw iâr) yn berygl.

**Risg:** Y tebygolrwydd y bydd perygl yn achosi niwed a pha mor ddifrifol y gallai'r effeithiau fod. Er enghraifft, mae bwyta cyw iâr sydd heb ei goginio'n ddigonol neu arferion hylendid gwael wrth ei baratoi yn ei gwneud hi'n llawer mwy tebygol y bydd *Campylobacter* yn eich gwneud chi'n sâl<sup>2</sup>



Prif flaenoriaeth yr ASB yw sicrhau bod bwyd y DU yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod y safon diogelwch bwyd a diogelwch defnyddwyr uchel rydym ni'n ei mwynhau yn y wlad hon yn cael ei chynnal. Os oes angen i reolau newid neu os bydd angen i ni weithredu i ddiogelu defnyddwyr yn y DU, byddwn yn darparu cyngor ac argymhellion annibynnol i ddefnyddwyr, Gweinidogion ac eraill i wneud hynny, fel yr ydym ni wedi'i wneud ar fwyta wyau 'meddal'.

Mae cyflwyno trefn reoleiddio effeithiol a dibynadwy ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid y tu allan i'r UE wedi gofyn am waith paratoi gofalus, wedi'i lywio gan gynllunio ac arweinyddiaeth Bwrdd yr ASB. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig o ystyried y disgwyliad y bydd cynnydd yn ein cyngor dadansoddi risg a'n hargymhellion, a rhagor o graffu ar hynny <sup>3,4,5,6,7</sup>.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r egwyddorion a'r prosesau rydym ni wedi'u rhoi ar waith fel bod ein prosesau dadansoddi risg yn gadarn ac yn dryloyw, ac yn seiliedig ar yr wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau a mwyaf diweddar sydd ar gael. Mae darparu dull effeithiol o ddatblygu risg yn sail i bopeth a wnawn a'n huchelgais i gael ein cydnabod fel rheoleiddiwr modern, rhagorol ac atebol.

Rydym ni wedi gweithio'n agos a chydweithredol gydag adrannau'r llywodraeth ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddatblygu ein proses dadansoddi risg. Rydym ni'n falch o'n dull pedair gwlad o gyflawni cyfundrefn reoleiddio sy'n effeithiol ar gyfer y DU gyfan.



# BETH YW DADANSODDI RISG?

Dadansoddi risg yw'r broses o amcangyfrif risgiau i iechyd pobl a/neu anifeiliaid, nodi a gweithredu mesurau i reoli'r risgiau, a chyfathrebu'r risgiau a'r mesurau hyn i bartion perthnasol. Mae tair rhan i'r broses: **asesu risg**, dan arweiniad gwyddoniaeth a thystiolaeth; **rheoli risg**, drwy ystyried y dewisiadau rheoli sydd ar gael gan swyddogion polisi; a **chyfathrebu risg**.

## ELFENNAU DADANSODDI RISG

Mae **asesu risg** yn cynnwys defnyddio dull gwyddonol i nodi a diffinio peryglon, ac i amcangyfrif y risg bosibl i iechyd pobl a/neu iechyd anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r cysylltiad tebygol â risgiau o fwyd a ffynonellau perthnasol eraill.

Mae **rheoli risg** yn golygu ystyried mesurau posibl er mwyn naill ai atal neu reoli'r risg. Mae'n cymryd i ystyriaeth asesiad risg a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd i lunio ymateb.

**Cyfathrebu risg** yw cyfnewid gwybodaeth a safbwyntiau trwy gydol y broses dadansoddi risg. Gall hyn fod rhwng aseswyr risg, rheolwyr risg, defnyddwyr, y diwydiant, y gymuned academiaidd ac unrhyw bartion eraill sydd â diddordeb. Mae'n cynnwys deall pryderon defnyddwyr, cyhoeddi canfyddiadau asesiadau risg, a dosbarthu cyngor.

Gall prosesau bwyd, cynhyrchu/gweithgynhyrchu bwyd a'r gadwyn gyflenwi olygu bod defnyddwyr yn dod i gysylltiad â nifer o risgiau. Ymhlith y risgiau mae materion cemegol, microbiolegol, radiolegol a gorsensitifrwydd i fwyd gan gynnwys o bethau fel ychwanegion, cyflasynnau, bwyd a addaswyd yn enetig (bwyd GM), halogion cemegol a deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd<sup>8</sup>.

Mae ein proses dadansoddi risg yn gyson ac wedi'i strwythuro, ond hefyd yn ystwyth ac yn hyblyg, gan ganiatáu i ni ddarparu argymhellion rheoli risg cadarn sy'n diogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd.

Mae allbynnau'r broses dadansoddi risg yn cynnwys cynghori ar:

- Ddatblygu safonau a rheolaethau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol; er enghraifft polisiâu, canllawiau, mesurau rheoli a gorfodi
- Cymeradwyo cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoledig cyn eu rhoi ar y farchnad ac adolygiadau ar ôl eu rhoi ar y farchnad;
- Rheolaethau mewnforio ar sail risg;
- Ymdrin â digwyddiadau a throseddau bwyd.

# CRYFHAU PROSES DADANSODDI RISG YR ASB

Mae mesurau dadansoddi risg yr ASB bob amser wedi cyd-fynd â chanllawiau rhyngwladol, gan gynnwys y rhai gan Codex Alimentarius<sup>9,10,11</sup>. Wrth adolygu ein proses, rydym ni wedi tynnu ymhellach ar gyngor annibynnol ein Cyngor Gwyddoniaeth gyda mewnbwn a datblygiad ychwanegol gan ein Pwyllgor Cyngori ar Wyddor Gymdeithasol (ACSS). Rydym ni wedi ystyried eu cyngor ar sefydlu a chyfathrebu risg ac ansicrwydd<sup>12</sup>, gan gael mynediad at allu gwyddonol a chael sicrwydd o hyn<sup>13</sup>, a chanfod risgiau'r dyfodol yn well<sup>14</sup>.

Dechreuon ni ein hadolygiad dadansoddi risg eisoes mewn sefyllfa o brofiad a chryfder, ac mae ein proses ddiwygiedig yn gosod safon rhyngwladol mewn cyngor rheoli risg tryloyw. Rydym ni'n hyderus bod ein proses ar flaen y gad yn fyd-eang.


Dyma'r elfennau newydd yr ydym ni wedi'u hychwanegu:

- 1 Gwahaniaeth cliriach rhwng ein gwaith asesu risg a'n gwaith rheoli risg** er mwyn sicrhau cywirdeb gwyddonol yr asesiad risg
- 2 Ymestyn rôl ein Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol**, sydd wedi'u cryfhau trwy recriwtio arbenigwyr ychwanegol a thrwy sefydlu tri Grŵp Arbenigol ar y Cyd newydd.
- 3 Proses newydd yn y DU ar gyfer awdurdodi cynhyrchion sydd wedi'u rheoleiddio** fel ychwanegion bwyd a bwyd anifeiliaid, ensymau, cyflasynnau, bwyd newydd, bwyd GM a bwyd anifeiliaid.



# DEFNYDDIO GWYDDONIAETH A THYSTIOLAETH WRTH DDADANSODDI RISG

Mae tystiolaeth wyddonol, cyngor arbenigol annibynnol a sicrwydd wrth ddehongli a defnyddio gwyddoniaeth yn rhannau annatod o'n proses dadansoddi risg a'n cyfrifoldebau fel rheoleiddiwr gwych, atebol ac agored. Mae gan ein proses dadansoddi risg dair prif elfen: asesu risg, rheoli risg a chyfathrebu risg.



Nodi Peryglon

## RÔL EIN PRIF GYNGHORYDD GWYDDONOL

Mae llawer o bobl yn cyfrannu at sicrhau ansawdd ein gwyddoniaeth a'n tystiolaeth: adolygwyr mewnol, ein Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol ac adolygwyr sy'n gymheiriaid allanol, ond mae ein Prif Gyngorydd Gwyddonol yn rhoi sicrwydd o gyfanrwydd ein tystiolaeth wyddonol a'i defnydd.

## RHEOLI RISG

Mae rheolwyr risg yn ystyried pa ddulliau y gellid eu gweithredu i reoli risgiau. Byddant yn ymgynghori â phobl â diddordeb ac yn ystyried ffactorau sy'n berthnasol ar gyfer diogelu iechyd defnyddwyr a'u buddiannau ehangach mewn perthynas â bwyd. Mae rheolwyr risg yn cynnig cyngor ac argymhellion.



## ASESU RISG

Mae aseswyr risg ac arbenigwyr eraill yn darparu'r wyddoniaeth sy'n cefnogi ein cyngor. Maent yn gyfrifol am nodi a nodweddu peryglon, asesu lefelau cysylltiad a nodweddu risgiau i iechyd, neu ddarparu tystiolaeth, er enghraifft o effeithiau economaidd posibl neu ganfyddiadau defnyddwyr o faterion. Mae'r dystiolaeth a gesglir gan ein gwyddonwyr yn cefnogi rheolwyr risg i ddatblygu'r cyngor cywir.

Rydym ni'n defnyddio cyngor annibynnol arbenigwyr gwyddonol er mwyn sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau a mwyaf diweddar. Mae hyn yn cynnwys ein:

- Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol
- Grwpiau arbenigol ar y Cyd
- Rhestr o Arbenigwyr



## CYFATHREBU RISG

Mae cyfathrebu risg wedi'i ymgorffori ar draws ein fframwaith dadansoddi risg, gan sicrhau rhannu barn, dealltwriaeth a dewisiadau mewn ffordd ryngweithiol trwy gydol y broses.

Rydym ni'n darparu esboniadau clir o ganfyddiadau asesiadau risg a sail penderfyniadau rheoli risg, gan ddefnyddio dulliau effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gyfathrebu â defnyddwyr, rhanddeiliaid y diwydiant a phobl eraill sydd â diddordeb.

Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol, rydym ni'n defnyddio gwybodaeth gwyddor gymdeithasol i ddeall agweddau, credoau ac ymddygiadau'r bobl rydym ni'n cyfathrebu â nhw.



Cyflwyno asesiad risg a thystiolaeth wyddonol arall gan ein haseswyr a'n dadansoddwyr i reolwyr risg

# ASESU RISG


Er mwyn i'r cyhoedd ymddiried yn ein trylwyredd gwyddonol, rhaid i ni sefydlu hyder yn ein mesurau asesu risg iechyd y cyhoedd. Mae aseswyr risg yr ASB yn ystyried llawer o ffactorau mewn asesiadau risg, gan gynnwys pa offer a dulliau ategol sydd eu hangen. Bydd y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar ba mor newydd yw'r perygl, ei gymhlethdod, a'r llwybrau cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid dan sylw.



## CAPASATI A GALLU ASESU RISG YR ASB DR AMIE ADKIN, PENNAETH UNED ASESU RISG, ASB

“Ein rôl fel aseswyr risg yw sicrhau bod y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau mewn modd tryloyw a diduedd. Mae ein cynllun gwyddoniaeth strategol<sup>15</sup> yn manylu ar ein ffocws i adeiladu ein rhagoriaeth wyddonol ynghyd â'n Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol, i fod yn barod ar gyfer y dyfodol, a thyfu ein dylanwad a'n heffaith. Er mwyn dod â hyn yn fyw ac mewn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol, mae Uned Asesu Risg yr ASB wedi mwy na dyblu mewn maint ers 2017. Os ydych chi'n ystyried ein hystadegwyr, ein heconomegwyr a'n gwyddonwyr cymdeithasol hefyd, mae Is-adran Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB bellach yn dîm o bron i 100 o arbenigwyr gwyddonol a staff cymorth, gan ddarparu'r capasiti, y gallu a'r gwytnwch sydd eu hangen fel awdurdod diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid cymwys.”

Yn ogystal â'n haseswyr risg pwrpasol ein hunain yn yr ASB, rydym ni'n gweithio gyda phedwar Pwyllgor Cynghori Gwyddonol annibynnol, arbenigol i gymhathu gwybodaeth wyddonol a gwerthuso ei pherthnasedd a'i dylanwad, gan helpu i sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau a mwyaf diweddar. Penodir aelodau pwyllgorau cynghori gwyddonol yn wirfoddol ac maent yn deillio o faes amlddisgyblaethol eang gan gynnwys academyddion arbenigol ac ymarferwyr profiadol. Mae'r cyngor a'r gefnogaeth annibynnol y mae aelodau'r pwyllgorau hyn (a'n strwythurau cynghori eraill) yn eu darparu yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fuddiannau ac iechyd y cyhoedd.



Dyma'r pedwar Pwyllgor Cyngori Gwyddonol dan sylw:

- Y Pwyllgor ar Wenwyndra Cemegion mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT);
- Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF);
- Pwyllgor Cyngori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP);
- Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Anifeiliaid (ACAF).

Er mwyn cryfhau Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol yr ASB y tu allan i'r UE, rydym ni wedi penodi 35 aelod pwyllgor atodol ac wedi creu tri Grŵp Arbenigol ar y Cyd newydd ar gyfer cynhyrchion rheoledig, sy'n gweithio i'r un egwyddorion â'n Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol.

Bydd y pedwar Pwyllgor yn parhau i ddarparu cyngor asesu risg ar gyfer safonau a rheolaethau ar sail risg, tra bydd y Grwpiau newydd yn mynd i'r afael â mwyafrif y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchion rheoledig. Mae'r tri Grŵp Arbenigol ar y Cyd newydd yn canolbwyntio ar:

- Ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd
- Ychwanegion, ensymau a chynhyrchion rheoledig eraills
- Bwyd anifeiliaid ac ychwanegion bwyd anifeiliaids

Mae tudalennau gwe sy'n rhoi disgrifiad manylach o'r prosesau dadansoddi risg ac awdurdodi cynnyrch rheoledig ar gael i fusnesau ar food.gov.

3

GRŴP ARBENIGOL AR  
Y CYD AR GYFER  
CYNHYRCHION WEDI'U  
RHEOLEIDDIO

100

O ARBENIGWYR  
GWYDDONOL A  
STAFF ATEGOL

35

O AELODAU  
PWYLLGOR  
CYNGHORI  
YCHWANEGOL

50%



DYBLU NIFER  
ASESWYR  
RISG YR ASB  
ERS 2017

# TYSTIOLAETH 'ARALL' SY'N CAEL EI HYSTYRIED

Wrth ystyried sut i gynghori ar reoli risg, mae angen pwysu a mesur nifer o 'ffactorau dilys eraill'. Cefnogir yr ASB gan ddadansoddwyr arbenigol eraill gan gynnwys ein hystadegwyr, ein heconomegwyr a'n gwyddonwyr cymdeithasol sy'n darparu tystiolaeth 'arall', gan gefnogi ymhellach benderfyniadau rheoli risg clir a rhesymol y gellir eu cyfiawnhau.

Mae ein gwyddonwyr cymdeithasol hefyd yn fuddiol trwy helpu i gyfathrebu risg yn effeithiol trwy ddeall agweddau, credoau ac ymddygiadau'r bobl yr ydym ni'n cyfathrebu â nhw.

Bydd y ffactorau ychwanegol rydym ni'n eu hystyried yn amrywio yn ôl y risg o ran diogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid. Yn ychwanegol at asesiad risg iechyd pobl, byddant fel arfer yn cynnwys:

- buddiannau ehangach defnyddwyr fel effaith ar yr amgylchedd, lles anifeiliaid a mynediad at y cyflenwad bwyd
- arferion, canfyddiadau, derbynioldeb a hoffterau defnyddwyr, gan gynnwys ymddygiadau tebygol defnyddwyr mewn ymateb i risg a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg
- effaith economaidd: effeithiau'r risg ei hun, cost a budd gweithredu dewisiadau rheoli risg ac ystyried pwy fydd yn ysgwyddo'r costau hyn a phwy fydd yn elwa arnynt
- ystyriaethau technegol a dichonoldeb, hynny yw gallu a chapasiti i weithredu dewisiadau rheoli risg, y gallu i orfodi/gwirio rheolaethau, ac ystyried datblygiadau gwyddonol/technolegol

Rhaid i'r ffactorau hyn gael eu nodi a'u cyfathrebu'n glir er mwyn osgoi camgyfleu tystiolaeth o asesiad risg i iechyd pobl neu ansicrwydd o ran pam y gwnaed argymhellion rheoli risg. Mewn unrhyw sefyllfa benodol, bydd pob ffactor yn dylanwadu ac yn effeithio'n wahanol ar y dewisiadau rheoli risg terfynol a gynghorir. Felly mae'n bwysig ein bod yn dangos yr holl ffactorau y dylai rheolwyr risg eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.



# YMDRIN AG ANSICRWYDD A SICRWYDD Y PRIF GYNGHORYDD GWYDDONOL

Wrth reoli risg, rhaid ystyried pob un o'r dewisiadau yn unigol, gan gynnwys effaith unrhyw ansicrwydd.

Mae bron bob amser elfen o ansicrwydd wrth wneud penderfyniadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Weithiau caiff hyn ei achosi gan ddata coll ond hefyd gan amrywiadau naturiol. Mae'r Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF) wedi ein helpu i gymhwyso cynrychiolaeth aml-ddimensiwn gyson o risgiau wrth asesu risg.

Mewn llawer o achosion, efallai y bydd yn rhaid i ni gyhoeddi safbwynt dadansoddi risg cyn aros i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Hyd yn oed pan nad yw amser yn ffactor sy'n cyfyngu cymaint, gall ansicrwydd fod yn anostyngadwy neu gall gymryd adnoddau anghymesur i'w leihau.

Mewn amgylchiadau lle mae ansicrwydd yn parhau ynghylch natur neu debygolrwydd y risg i iechyd y cyhoedd, gellir defnyddio egwyddor ragofalus. Yn unol â gofynion cyfreithiol, lle mae hyn yn digwydd, rhaid i'r camau rheoli risg a gymerir fod:

- yn gymesur;
- peidio â chyfyngu ar fasnach unrhyw fwy nag sydd ei angen i sicrhau lefel diogelu iechyd uchel;
- yn ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd;
- yn cael eu hadolygu o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Mae'r egwyddor ragofalus wedi'i gwreiddio mewn cyfraith masnach ryngwladol. Fe'i cymhwysir lle mae angen mesurau i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac nid oes tystiolaeth wyddonol ddigonol i gynnal asesiad risg boddhaol. Yn yr amgylchiadau hynny, gellir defnyddio mesurau rheoli risg dros dro wrth ymgymryd â gwyddoniaeth bellach.

Mae tryloywder ein proses dadansoddi risg yn bwysig er mwyn sicrhau cywirdeb ein gwyddoniaeth asesu risg a thystiolaeth yn erbyn penderfyniadau a allai gael eu cymell gan ffactorau eraill. Dyma un o'r rhesymau pam y bydd yr ASB yn cyhoeddi'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sy'n sail i'w hasesiadau a'i chyngor i weinidogion iechyd, a fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau rheoli risg allweddol.

Mae'r egwyddor ragofalus wedi bod wrth wraidd llawer o ddisgwrs yn Ewrop. Mae rheoleiddio cnydau a Addaswyd yn Enetig (GM) a chyflwyno rhai technegau bridio planhigion 'newydd' yn enghraifft o hynny. Yn yr achos hwn, gall dystiolaeth asesu risg iechyd pobl awgrymu bod cynhyrchion o'r fath yn ddiogel i'w bwyta ond defnyddiwyd ansicrwydd i gyfiawnhau mabwysiadu'r egwyddor ragofalus, ochr yn ochr â phenderfyniadau rheoli risg y mae ffactorau eraill yn dylanwadu arnynt.

Trwy ystyried ansicrwydd ac amrywioldeb, gallwn wneud penderfyniadau gwell, mwy tryloyw ynghylch rheoli risgiau. Gallwn hefyd bwysu a mesur risgiau a buddion wrth gymryd mwy o amser ac adnoddau i fynd i'r afael â ffynonellau ansicrwydd.


## MAE DADANSODDI RISG YN BROSES REOLAIDD

Mae dadansoddiad risg yn broses reolaidd a gall esblygu/newid dros amser. Rydym ni'n adolygu ein sefyllfa yn barhaus wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg ac rydym ni'n monitro perthnasedd, effeithiolrwydd ac effaith penderfyniadau rheoli risg. Enghraifft achos dda yw cyngor yr ASB mewn perthynas â bwyta wyau 'meddal'.

Ar ddiwedd yr 1980au, achosodd *Salmonella enteritidis* yr epidemig mwyaf a mwyaf parhaus o haint a gludir gan fwyd y gellir ei briodoli i is-deip unigol o unrhyw bathogen. Amcangyfrifir bod >525,000 o bobl yng Nghymru ac yn Lloegr yn unig wedi'u taro'n sâl o ganlyniad i hyn. O'r herwydd, dywedodd yr ASB na ddylai grwpiau agored i niwed fwyta wyau amrwd na wyau wedi'u coginio'n ysgafn oherwydd y risg o salwch difrifol.

Trwy gydol y 90au a'r degawd canlynol, cyflwynwyd cyfres o fesurau rheoli (yn fwyaf amlwg, brechiadau), wedi'u hategu gan Godau Ymarfer cynllun sicrwydd preifat. Mae hyn wedi lleihau nifer yr achosion o haint mewn pobl yn sylweddol.

Yn 2015, adolygodd y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd y dystiolaeth wyddonol. Yn seiliedig ar argymhellion y pwyllgor<sup>16</sup>, adolygodd yr ASB ei chynghor yn dilyn hynny, gan ei ddiwygio i nodi y gall defnyddwyr – gan gynnwys grwpiau agored i niwed – nawr fwyta wyau ieir amrwd neu rai wedi'u coginio'n ysgafn o'r DU neu fwydydd sy'n eu cynnwys. Byddwn ni'n parhau i asesu'r sylfaen dystiolaeth *Salmonella* ac yn adolygu ymhellach ein canllawiau yn ôl yr angen.



## RÔL Y PRIF GYNGHORYDD GWYDDONOL

Mae'r Prif Gyngorydd Gwyddonol yn darparu sicrwydd uwch ar drylwyredd gwyddonol a chywirdeb tystiolaeth yr ASB, y Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol a'r Grwpiau Arbenigol ar y Cyd a'u defnydd. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo ein prosesau, er enghraifft: adolygiad mewnol ac allanol gan gymheiriaid; nodi, ystyried a chyfleu ansicrwydd a'i effeithiau; a phwysoli gwahanol ddarnau o dystiolaeth yn briodol. Gall pwysoli amrywio gan ddibynnu ar gydbwysedd yr holl ffactorau yn y 'pecyn tystiolaeth' cyflawn. Mae'r uwch sicrwydd gwyddonol hwn yn helpu eraill i fagu hyder yn y defnydd o wyddoniaeth a thystiolaeth yn nulliau dadansoddi risg yr ASB.

## CYNGOR RHEOLI RISG

Bydd y 'pecyn tystiolaeth' sy'n cynnwys yr asesiad risg iechyd pobl ac adroddiadau tystiolaeth ar ffactorau dilys eraill yn cael ei gyflwyno i reolwyr risg yr ASB. Mae'r gwahaniad clir hwn rhwng rolau a chyfrifoldebau ein haseswyr risg, dadansoddwyr eraill a rheolwyr risg yn bwysig er mwyn sicrhau cywirdeb gwyddonol yr asesiad risg.

Bydd rheolwyr risg yn defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu dewisiadau ac argymhellion rheoli risg. Gall hyn gynnwys ystyried dewisiadau mewn ymgynghoriad ag adrannau eraill y llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid.

Yn y pen draw, Bwrdd yr ASB sy'n goruchwyllo'r broses dadansoddi risg. Pan gredir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer materion rheoli risg sylweddol neu ddadleuol, bydd y Bwrdd yn ystyried y dewisiadau rheoli risg ac yn llunio cyngor ac argymhellion terfynol i Weinidogion ac eraill. Gyda materion o'r fath, gall y Bwrdd gymryd rhan mewn trafodaethau cwmpasu cychwynnol yn gynharach yn y broses rheoli risg, cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Bydd hyn yn caniatáu iddo ennyn hyder bod set eang briodol o effeithiau yn cael ei defnyddio wrth lunio cyngor ar reoli risg.

Bydd y Prif Gyngorydd Gwyddonol yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori a thrafodaethau'r Bwrdd i roi sicrwydd ar ddehongli a phwysoli'r dystiolaeth wyddonol.





# CYFATHREBU RISG

Mae cyfathrebu cyson rhwng aseswyr risg, rheolwyr risg a chyfathrebwyr risg yn hanfodol ar bob cam o'r broses ddadansoddi. Mae'n sicrhau cyd-ddealltwriaeth, sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas ag ansicrwydd.

Mae tair egwyddor yn gysylltiedig â'n proses cyfathrebu risg, ac rydym ni'n ymdrechu i gadw atynt waeth a yw'n fater brys, yn fater uchel ei broffil neu'n fater rydym ni'n dymuno codi ymwybyddiaeth ohono yn unig:

- 1 Cyfathrebu'n agored.** Yn fewnol ac yn allanol, rydym ni'n darparu esboniad clir o ganfyddiadau asesiad risg a'r ffactorau dilys eraill sy'n sail i benderfyniadau rheoli risg. Rydym ni'n ymgynghori ag eraill ar ein dewisiadau rheoli risg drafft ac yn eu hadolygu yn ôl yr angen. Rydym ni'n cyhoeddi ein tystiolaeth fel y gall rhanddeiliaid lunio barn wybodus am ein prosesau a'n penderfyniadau. Mae hyn yn gyson â Chod Ymarfer yr ASB ar Fod yn Agored<sup>17</sup>.
- 2 Cynnal dibynadwyedd cenedlaethol a rhyngwladol yr ASB.** Rydym ni'n gweithio ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn agos gyda'n cymheiriaid yn Safonau Bwyd yr Alban i ddatblygu dulliau cyfathrebu cydlynol sy'n gyson ledled y DU. Ar yr un pryd, rydym ni'n cydnabod bod gan bob gwlad anghenion penodol, ac rydym ni'n teilwra ein dull yn unol â hynny.
- 3 Deall safbwynt y gynulleidfa.** Rydym ni'n deall bod pobl yn prosesu risg ac yn ymateb i ansicrwydd mewn gwahanol ffyrdd. Rydym ni'n gwrando ar y cymunedau rydym ni'n gobeithio cyfathrebu â nhw a'u cynnwys wrth greu negeseuon er mwyn eu gwneud mor ddealladwy â phosib. Gall y dull fod yn wahanol i wahanol randdeiliaid.

Rydym ni'n ceisio cefnogaeth ein Pwyllgor Cyngori ar Wyddor Gymdeithasol a gweithwyr cyfathrebu proffesiynol yn rheolaidd er mwyn:

- Deall canfyddiadau, credoau, gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau
- Cydbwysu eglurder a manwl gywirdeb
- Cymhwyso egwyddorion gwyddor ymddygiad
- Cynnwys cymunedau wrth greu negeseuon a gwerthuso effeithiolrwydd ein cyfathrebu

# ASTUDIAETH ACHOS – PECYN TYSTIOLAETH YR ASB AR GYFER ADOLYGIAD O FWYD YSBYTY'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (GIG)

Mae'r ASB wedi bod yn cefnogi'r Adolygiad o Fwyd Ysbyty'r GIG sy'n adolygu'r bwyd a ddarperir yng nghyfleusterau'r GIG ar gyfer cleifion, ymwelwyr a staff. Mae'r adolygiad yn dilyn digwyddiad diweddar lle roedd cig mewn brechdanau wedi'u pecynnu ymlaen llaw yn gysylltiedig â heintiau *Listeria* mewn cleifion ysbyty, ac yn anffodus, bu farw chwech o bobl.

Mae'r ASB wedi cyflwyno pecyn tystiolaeth dadansoddi risg i'r adolygwyr. Mae'n cyflwyno tystiolaeth o ystod o ffynonellau ac yn tynnu ar brofiadau a gwersi o ddigwyddiadau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig ag ysbytai. Dyma un o'r achosion defnydd cyntaf sydd wedi helpu i brofi ein gwahaniad cliriach o asesu risg a rheoli risg, gan ddefnyddio'r offer/strwythurau sydd wedi'u rhoi ar waith i hwyluso cyfnewid pecyn tystiolaeth yn gyson rhwng aseswyr risg a rheolwyr risg.

Mae cael asesiad cynhwysfawr o'r risgiau a berir gan *Listeria* i gleifion mewn ysbytai yn heriol oherwydd nifer o fylchau yn y dystiolaeth ac ansicrwydd. Lluniwyd 'proffil risg', sy'n cynnwys camau fel adnabod peryglon, asesu cysylltiad neu amlygiad (hynny yw, pa mor debygol yw'r perygl o ddigwydd ac i bwy), a nodweddu peryglon (hynny yw, beth yw'r canlyniadau)?

Gwnaethom gymharu'r risgiau diogelwch bwyd damcaniaethol ar gyfer cynhyrchu bwyd ar y safle (o fewn ysbytai) yn erbyn cyrchu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw gan gyflenwyr allanol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried ffactorau fel cysondeb cyflenwad a'r gallu i olrhain; natur y cynhwysion a ddefnyddir (bwyd amrwd neu fwyd wedi'i goginio ymlaen llaw); lefel y cyswllt â phobl a'r defnydd o beiriannau; storio ôl-gynhyrchu; dosbarthiad o fewn ysbytai; a chyfnod amser cyn i'r bwyd gyrraedd y defnyddwyr. Gwnaethom hefyd ystyried bod sefydliadau bwyd sy'n cael sgôr hylendid bwyd uwch mewn arolygiadau yn llai tebygol o fod yn ffynhonnell o achosion o glefydau a gludir gan fwyd<sup>18,19</sup>. Gall bwyd a gynhyrchir ar y safle gan ddefnyddio cynhwysion ffres gyflwyno mwy o ffactorau risg damcaniaethol na bwyd o ffynonellau wedi'u pecynnu ymlaen llaw gan gyflenwyr allanol, ond nid yw'n bosibl dweud pa rai sy'n peri risg gyffredinol uwch.

Amlygodd ein ‘ffactorau dilys eraill’ sut y gallai mewnwelediadau ymddygiadol wella cydymffurfiaeth ag arferion hylendid bwyd gorau ac felly leihau’r risg o *Listeria*. Mae hyn yn cynnwys dysgu o ymyriadau ymddygiadol llwyddiannus, fel gwella hylendid dwylo mewn sefydliadau gofal iechyd, yna targedu’r ymddygiadau mwyaf peryglus a all arwain at haint a gludir gan fwyd mewn ysbytai.

Mae rheolwyr risg yr ASB wedi cynghori y byddai cydnabod cyfrifoldebau unigol yn well trwy’r gadwyn gyflenwi i wardiau ysbytai, ochr yn ochr â glynu’n well at ganllawiau presennol yr ASB, yn helpu i leihau’r risg y bydd grwpiau sy’n agored i niwed yn cael listeriosis.

*Mae Listeria yn gyffredin iawn yn yr amgylchedd a gall halogi amrywiaeth o fwydydd. Mae listeriosis a gludir gan fwyd yn brin o’i gymharu â phathogenau eraill a gludir gan fwyd, gyda dim ond 135 o achosion yng Nghymru ac yn Lloegr yn 2017<sup>20</sup>. Gall Listeria achosi salwch mewn oedolion iach ond gall fod yn llawer mwy difrifol i’r rheiny sydd â systemau imiwnedd gwannach, a hefyd yr henoed, menywod beichiog a babanod. Mae rhagor o wybodaeth ar ein tudalen [canllawiau Listeria](#) ar ein gwefan.*





Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk

## SYLWADAU'R PRIF GYNGHORYDD GWYDDONOL: HERIAU A CHYFLEOEDD Y DYFODOL

"Dyma fy nawfed Adroddiad Gwyddoniaeth, a fy adroddiad olaf, fel Prif Gyngorydd Gwyddoniaeth yr ASB. Rydw i wedi bod yn falch ac wedi fy ysbrydoli i fod yn rhan o waith yr ASB i ddiogelu defnyddwyr a chynrychioli ei hystod eang o wyddonwyr amlddisgyblaethol.

Diolch i broses dadansoddi risg yr ASB, mae'r DU mewn sefyllfa o 'gryfder parod' o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Bydd cyfathrebu clir a gonest yn parhau i fod yn ganolog i ymddiriedaeth defnyddwyr yn yr ASB, fel ag y bydd rhwng rheolwyr risg ac aseswyr risg i sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu holi a bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio'n briodol.

Mae gennym ni ymrwymiad parhaus i ddefnyddio tystiolaeth yn agored ac yn dryloyw; bod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym ni'n ei wneud ac nad ydym ni'n ei wybod, lle mae angen i ni geisio tystiolaeth bellach ar fater, sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio a pham rydym ni'n credu bod llwybr gweithredu yn gywir. Mae hyn yn sylfaenol i'r egwyddorion y crëwyd yr ASB yn eu herbyn 20 mlynedd yn ôl, er mwyn diogelu defnyddwyr, yn sgil yr argyfwng Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE). Yr ymrwymiad hwn i uniondeb a thrylwyredd gwyddonol sy'n gwneud ein cyngor i Weinidogion ac eraill yn awdurdodol.

Mae'n galonogol gweld y rôl y mae gwyddoniaeth a gwyddonwyr yn ei chwarae yn ymateb y DU i COVID-19 ac mae'n braf iawn gweld bod arbenigwyr 'yn ôl mewn ffasiwn', yn darparu iaith gyffredin ar draws adrannau, er mwyn helpu i fynd i'r afael â sefyllfa gymhleth ac anodd. Trwy gydol fy amser yn yr ASB ac fel Prif Gynghorydd Gwyddonol, gwyddoniaeth yn aml yw'r glud sy'n dod â phroffesiynau ynghyd i fynd i'r afael â heriau, ac rydw i'n credu fod yr ASB wedi cyflawni'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w wneud, sef sicrhau y gall dinasyddion y DU gael bwyd sy'n ddiogel y maent yn gallu ymddiried ynddo. Mae COVID-19 yn dysgu gwersi i ni ar draws y llywodraeth, mewn perthynas â dod â gwyddoniaeth i'r amlwg wrth wneud penderfyniadau, a sut i ddelio ag ansicrwydd a'i gyfleu.

Fel gyda phob gwyddoniaeth, mae'n rhesymol ac yn cael ei annog i eraill herio ein tystiolaeth a'i defnydd wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg neu fod ar y gweill, fel oedd yr achos gyda bwyta wyau meddal a risg Salmonela i grwpiau agored i niwed. Fodd bynnag, os yw'r ASB am gael ei barnu yn ôl ei 'rhagoriaeth' wyddonol, dylai'r ASB fod yr un mor eglur i eraill ar yr hyn y mae'n ei ystyried yn dystiolaeth o 'ansawdd', a faint o dystiolaeth sy'n ofynnol i sbarduno dadansoddiad newydd, gan leihau'r baich a'r effaith niweidiol bosibl o herio anecdotaidd.

Wrth i'r ASB ddathlu ei phen-blwydd yn 20 oed eleni, mae llawer o heriau a chyfleoedd o'n blaen mewn perthynas â chadernid diogelwch a dilysrwydd bwyd y DU. Mae'r 20 mlynedd diwethaf wedi dod â llawer o newidiadau a heriau yr oedd modd eu rhagweld i'r system fwyd, ond hefyd llawer na ellid fod wedi'u rhagweld ddiwedd y 1990au. Wrth i'r system fwyd barhau i newid, i un a fydd yn gwella iechyd pobl a'r blaned gobeithio, mae'n rhaid i'r ASB gael y broses dadansoddi risg orau i hwyluso newid a pharhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Croesewir y datblygiad o Strategaeth Fwyd Genedlaethol i helpu i fynd i'r afael ag anghenion niferus ein system fwyd, a byddaf yn parhau i hyrwyddo arwyddocâd diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a rhagoriaeth gwyddoniaeth yr ASB wrth arwain Rhaglen Systemau Bwyd y Gronfa Blaenoriaethau Strategol i drawsnewid system fwyd y DU er mwyn sicrhau pobl iach ac amgylchedd iach."

# CYDNABYDDIAETH

Diolch i Lisa Nelson, Beth Davies, Joanne Edge, Gwen Aherne, Michelle Patel, Vanna Nasser Aldin, Linden Jack a Ben Goodall am eu cyfraniadau.

## CYFEIRIADAU

- <sup>1</sup> [Canllawiau busnes yr ASB ar ôl ymadael â'r UE](#)
- <sup>2</sup> [Cyngor yr ASB ar Campylobacter](#)
- <sup>3</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 18-09-09 – Dadansoddi risg: proses, llywodraethu, cyfathrebu](#)
- <sup>4</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 18-12-11 – Dadansoddi risg: proses](#)
- <sup>5</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 19-03-08 – Dadansoddi risg: sicrwydd](#)
- <sup>6</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 19-09-07 – Dull yr ASB tuag at ansicrwydd a risg](#)
- <sup>7</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 20-01-14 – Proses dadansoddi risg: diweddariad](#)
- <sup>8</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 19-09-17 – Adroddiad blynyddol digwyddiadau a gwynnwch 2018/19](#)
- <sup>9</sup> [Dadansoddi risg diogelwch bwyd: Canllaw ar gyfer awdurdodau diogelwch bwyd cenedlaethol](#)
- <sup>10</sup> [Canllawiau Codex Alimentarius](#)
- <sup>11</sup> [Egwyddorion a dulliau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer asesiad risg cemegion mewn bwyd](#)
- <sup>12</sup> [Adroddiad Terfynol Gweithgor Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB ar Risg ac Ansicrwydd](#)
- <sup>13</sup> [Adroddiad Terfynol Gweithgor Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB ar Allu a Sicrwydd](#)
- <sup>14</sup> [Adroddiad Terfynol Gweithgor Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB ar Risgiau'r System Fwyd a Sganio'r Gorwel](#)
- <sup>15</sup> [Papur Bwrdd yr ASB 19-09-19 – Diweddariad gwyddoniaeth 2019](#)
- <sup>16</sup> [Grŵp ad hoc AMCS ar wyau: Diweddariad ar y risg ficrobiolegol o blisgyn wyau a'u cynhyrchion](#)
- <sup>17</sup> [Polisi'r ASB ar fod yn agored](#)
- <sup>18</sup> [Trosolwg o Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB \(CSHB\)](#)
- <sup>19</sup> [Erthygl cyfnodolyn Rheoli Bwyd: "As clean as they look? Food hygiene inspection scores, microbiological contamination, and foodborne illness"](#)
- <sup>20</sup> [Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Lloegr: Listeriosis yng Nghymru ac yn Lloegr – Crynodeb ar gyfer 2017](#)



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
[food.gov.uk](http://food.gov.uk)